Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Gwyddfor Residential**

**CARTREF GOFAL GWYDDFOR**
**BODEDERN**
**CAERGYBI**
**LL65 3PD**

**Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad**

9 Ionawr 2020

## Ynghylch Cartref Gofal Gwyddfor

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gwasanaeth Cartref Gofal** |
| **Darparwr Gwasanaeth** | **Gwyddfor Residential Ltd** |
| **Unigolyn Cyfrifol** | **Glyn Williams** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **28** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **Arolygiad cyntaf o dan RISCA**<br><br>**(Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru))** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **09/01/2020** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Y ddwy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Ydy** |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael dewis o ran pob agwedd ar eu diwrnod, ac mae'r staff gofal yn eu cefnogi yn unol â'r dewisiadau hyn. Mae'r gweithgareddau yn niferus, yn ysgogol, yn therapiwtig ac yn hwyl, ac mae'r cydberthnasau rhwng y staff a'r bobl sy'n byw yn y cartref yn gyfarwydd mewn modd parchus. Caiff y bobl eu hannog yn llawn i ddefnyddio eu cryfderau er mwyn cynnal a hybu eu hannibyniaeth; mae amrywiaeth o gyfarpar a rhywfaint o weithgarwch ymarfer corff yn helpu i sicrhau bod y bobl yn gallu symud o amgylch a'u bod yn iach. Mae'r bobl yn mwynhau'r bwyd, sy'n amrywiol, yn faethlon, ac yn cael ei weini yn unol â dewis amser y bobl. Mae'r bobl yn canmol y staff gofal, a gwelsom eu bod yn garedig, yn amyneddgar, yn barchus ac yn amlwg yn mwynhau eu gwaith. Mae'r cartref ei hun wedi'i gynllunio'n dda, a chafodd anghenion y bobl eu hystyried wrth ei ddodrefnu. Mae'r bobl yn hapus yn byw yn Gwyddfor.

## 1. Llesiant

Mae'r bobl yn cymryd rhan lawn yn eu gofal, cyn eu derbyn ac ar ôl hynny. Caiff eu barn, dymuniadau a dewisiadau eu dogfennu mewn cynlluniau personol, a darperir gofal mewn modd sy'n parchu'r dymuniadau hyn. Mae'r staff gofal yn treulio amser yn sicrhau bod y bobl yn treulio eu diwrnod fel y dymunant, ac mae amseroedd prydau bwyd yn amrywio yn unol â dewisiadau'r bobl. Mae'r ystafelloedd yn unigol ac wedi'u dodrefnu ag eitemau sy'n bwysig i'r bobl. Mae'r staff gofal yn hybu annibyniaeth y bobl mewn modd cadarnhaol. Mae'r bobl yn mwynhau byw yn y cartref ac yn canmol y gofal a ddarperir.

Mae'r person â chyfrifoldeb a'r staff yn y cartref yn sicrhau mai iechyd a llesiant y bobl sy'n cael y brif flaenoriaeth. Gwelsom fod y staff gofal yn darparu cymorth sy'n adlewyrchu'r cyngor arbenigol a geir gan weithwyr proffesiynol sy'n ymweld, ac maent yn helpu'r bobl gyda'u hapwyntiadau sy'n ymwneud ag iechyd. Mae amrywiaeth o weithgareddau addas yn helpu i gynnal diddordeb y bobl, ac mae'r gerddi yn darparu lle ar gyfer ymarfer corff. Mae'r staff wedi cael hyfforddiant mewn meysydd sy'n bwysig i lesiant y bobl yn y cartref, ac mae digon ohonynt wedi'u cyflogi i sicrhau y gellir treulio amser gydag unigolion heb orfod rhuthro. Mae'r bwyd yn faethlon ac yn amrywiol, ac mae'r prydau bwyd yn ddigonol i sicrhau bod y bobl yn cael digon i fwyta i'w bodloni a digon o faeth.

Mae'r bobl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn gan yr arferion yn y cartref. Caiff asesiadau risg eu cwblhau mewn modd sy'n hybu annibyniaeth wrth gadw'r bobl yn ddiogel. Dim ond yn dilyn cyfarfodydd ag unigolyn, ei deulu a gweithwyr proffesiynol perthnasol y gwneir unrhyw benderfyniadau ynghylch cyfyngu ar ei ryddid. Mae'r staff gofal wedi cael hyfforddiant ar ddiogelu ac amddiffyn pobl sy'n agored i niwed.

Mae'r cartref wedi'i gynllunio i sicrhau bod y bobl yn gallu byw'n gyfforddus, wrth wneud y pethau y maent yn dymuno eu gwneud mewn modd mor ddiogel â phosibl. Rhoddwyd ystyriaeth fawr i'r dodrefn, y lluniau, yr arwyddion a'r addurn, sy'n helpu'r bobl i ddefnyddio'r adeilad yn llawn, i adnabod eu hamgylchedd ac i wybod ble maen nhw. Mae'r rheolwr yn edrych ar yr ystafelloedd bob dydd er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig, ac mae'r staff cynnal a chadw yn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella. Mae’r bobl yn hapus, ac yn dweud eu bod yn mwynhau byw yn y cartref. Gwelsom ei fod yn addas iawn i'r bobl sy'n byw ynddo.

## 2. Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn gwybod bod gan y person â chyfrifoldeb am y gwasanaeth gynllun cywir ynghylch sut y dylid diwallu pob un o'u hanghenion. Gwelsom fod cynlluniau personol ar waith ar gyfer pawb yn y gwasanaeth, a gaiff eu llunio ar y cyd gan y rheolwr a phob unigolyn, sy'n rhoi cyfarwyddiadau cynhwysfawr i'r staff gofal. Mae asesiadau a gwblheir cyn i'r bobl symud i fyw yn y gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddyheadau a dewisiadau'r bobl, ac yn cofnodi eu diddordebau, yn y gorffennol a'r presennol.

Cynhelir proses ymgynghori a gaiff ei dogfennu â'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, er mwyn sicrhau y nodir dymuniadau personol, dyheadau, cryfderau a meysydd y mae angen cymorth yn eu cylch yn gywir. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cynnwys yr holl wybodaeth hon, a gafwyd gan y bobl, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol eraill. Mae'r bobl yn defnyddio'r Gymraeg yn rhydd, ac yn hyderus y bydd pobl yn eu deall. Mae llawer o'r staff yn siarad Cymraeg, a chlywsom pobl yn sgwrsio yn Gymraeg drwy gydol y diwrnod. Mae'r staff gofal yn deall anghenion arbenigol megis gofal dementia. Mae cath robotig yn darparu adloniant a chysur i rai, a gwelsom gymhorthion gweledol yn cael eu defnyddio i alluogi'r bobl i wybod ble maen nhw. Mae'r gweithgareddau, a gaiff eu hysbysebu'n dda, yn amrywiol ac wedi'u haddasu i fod yn addas ar gyfer anghenion y bobl. Maent yn amrywio o fynd am dro o amgylch yr ardd, i sesiynau gwin a chaws, a harddwch a thrin gwallt yn ogystal â gemau traddodiadol megis dominos. Mae'r staff gofal wedi'u hyfforddi'n dda i ddarparu gwasanaeth da i'r bobl sy'n byw yn y cartref. Gwelsom fod y bwydlenni yn cynnwys llawer o fwydydd iach maethlon ac amrywiaeth o lysiau. Mae'r prydau bwyd yn hael. Mae'r bobl yn cyrraedd i fwyta ar amseroedd gwahanol yn unol â'u dewisiadau, a gwelsom y caiff yr hyn y maent yn ei fwyta ei fonitro fel y gellir nodi unrhyw newidiadau i'w hawydd bwyd. Gwnaeth yr holl bobl y gwnaethom siarad â nhw ganmol y gofal y maent yn ei gael a'r staff gofal sy'n ei ddarparu.

Mae'r staff gofal a'r rheolwyr yn y cartref yn cefnogi'r bobl i fynd i apwyntiadau er mwyn hybu eu hiechyd a'u llesiant. Mae'r cofnodion yn dangos yn glir bod gweithwyr proffesiynol eraill yn cynnig lefel dda o fewnbwn, y caiff eu harbenigedd ei werthfawrogi, ac y caiff camau eu cymryd ar sail eu cyngor a'u cymorth. Gwnaethom siarad â nyrs gymunedol a oedd yn ymweld, a oedd yn canmol pa mor gymwys a barod i gydweithio roedd y staff gofal. Dywedodd, "*we work well together*" , ac, "*I only have positive feedback to share".* Gwelsom fod y staff gofal yn gweithredu'n gyflym ac yn effeithiol i dawelu meddwl unigolyn a oedd wedi cynhyrfu, a'u bod yn garedig, yn amyneddgar ac yn barchus.

Caiff y bobl eu cadw mor ddiogel â phosibl, a chaiff eu llesiant ei ddiogelu. Caiff mesurau priodol eu cymryd er mwyn sicrhau mai dim ond pan fydd yn angenrheidiol i hybu ei lesiant y caiff cyfyngiadau eu gosod ar ryddid unigolyn. Mae gweithwyr proffesiynol perthnasol, y teulu a'r unigolyn yn cymryd rhan yn y broses o wneud unrhyw benderfyniadau o'r fath. Gwelsom fod camau priodol prydlon wedi cael eu cymryd i ddelio ag aelod o'r staff gofal nad oedd wedi gweithredu yn unol â disgwyliadau. Caiff unigolion eu hannog i gymryd

rhywfaint o risgiau er mwyn cynnal eu hannibyniaeth, ac mae strategaethau rheoli risgiau yn cefnogi hyn.

Mae'r systemau meddyginiaeth yn ddiogel, a chaiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a'i rhoi'n ofalus. Mae'r staff gofal sy'n gyfrifol am roi'r meddyginiaethau a ragnodir i'r bobl wedi'u hyfforddi i wneud hynny, ac mae archwiliadau rheolaidd o'r cofnodion yn rhoi sicrwydd ychwanegol bod yr arferion yn ddiogel. Mae rhai o'r bobl yn gyfrifol am eu meddyginiaeth eu hunain, gyda chynlluniau rheoli risgiau i'w cefnogi.

## 3. Yr Amgylchedd

Mae'r bobl sy'n berchen ar Gwyddfor wedi addasu'r cartref a'i ddodrefnu mewn modd sy'n cefnogi'r bobl i fod mor annibynnol â phosibl ac i dreulio eu diwrnod mewn modd sy'n gweddu iddynt. Mae'r cartref yn lân, yn ddiogel, ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, gyda gweithiwr cynnal a chadw ar y safle i wneud unrhyw waith atgyweirio neu ailosod mewn da bryd. Mae mesurau diogelwch yn atal unrhyw dresmaswyr nas gwahoddwyd. Mae ystafelloedd gwely'r bobl yn unigol, ac wedi'u personoli â'u trugareddau a'u lluniau eu hunain ac, mewn rhai achosion, eu dodrefn eu hunain. Defnyddir amrywiaeth o gyfarpar i helpu'r bobl yn eu gweithgareddau dyddiol, a chaiff ei storio o'r neilltu pan na chaiff ei ddefnyddio. Dewisir y dodrefn yn arbennig er mwyn helpu'r bobl i gynnal eu hannibyniaeth, megis droriau clir, i alluogi'r bobl i weld yr hyn sydd y tu mewn iddynt.

Caiff risgiau eu rheoli'n dda yn y cartref. Mae'r rheolwr yn edrych ar yr ystafelloedd bob dydd er mwyn sicrhau y cânt eu cadw yn unol â'r disgwyl. Mae ymylon crwm ar y dodrefn, ac mae synwyryddion llawr yn rhybuddio'r staff pan fydd angen help ar unigolyn. Drwy ymarferion tân rheolaidd, mae'r bobl yn parhau yn ymwybodol o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud pe bai argyfwng o'r fath. Caiff tymereddau'r boeleri a'r dŵr eu profi, a chaiff y cyfarpar ei archwilio a'i gynnal a'i gadw yn rheolaidd.

## 4. Arwain a Rheoli

Mae 'datganiad o ddiben' wedi'i ddogfennu, sy'n rhoi gwybodaeth gywir i'r bobl am yr hyn y gallant ei ddisgwyl pan fyddant yn dod i fyw yn y cartref. Darperir gwasanaethau i bobl sydd ag amrywiaeth o anghenion. Roedd y bobl y gwnaethom siarad â nhw yn fodlon dros ben ar y gwasanaeth y maent yn ei gael, a chafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y gweithwyr proffesiynol hefyd. Cadarnhaodd yr aseswr hyfforddiant fod y staff yn rhoi'r hyn a ddysgir ganddynt ar waith ac yn rhoi sylw i fanylder.

Mae perchennog y cartref yn goruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol. Gwelsom yr archwiliadau a gwblhawyd gan y rheolwr ar wahanol agweddau ar y gwasanaeth.

Mae'r person â chyfrifoldeb am y gwasanaeth yn sicrhau bod digon o staff yn gweithio i gyflawni'r gwahanol rolau. Gwelsom ddigon o staff gofal yn gweithio ar ddiwrnod ein hymweliad, a dywedodd un ymwelydd rheolaidd wrthym fod y staff yn sylwgar ac ar gael bob amser. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau wedi cael eu cynnal er mwyn sicrhau eu bod yn addas ar gyfer y rôl drwy gael geirdaon a chynnal gwiriadau cofnodion troseddol, ac edrych ar eu hanes cyflogaeth blaenorol. Maent yn gymwys, yn ofalgar, ac yn cael eu cefnogi gan reolwyr da. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn mwynhau gweithio yn y cartref ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Nodwyd “*couldn’t ask for a better manager”.*

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Dim.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

**Dyddiad Cyhoeddi** 05/08/2020